

Rhan Dau: Cynllun Ffioedd a Mynediad (yn ofynnol i'w gyhoeddi)

Cynllun Ffioedd a Mynediad

Enw'r sefydliad	Prifysgol Caerdydd
Hyd y cynllun ffioedd a mynediad	1 Awst 2025 i 31 Gorffennaf 2027
Adran 1 - Lefelau ffioedd	
Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu lefel y ffi a bennir ym mhob lleoliad (Paragraffau canllaw 85-92)	
Lefel y ffi	Lleoliad y cwrs
<p>I fyfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs yn 2024/25, neu sy'n dechrau yn 2025/26: yr uchafswm ffi a reoleiddir o 2025/26.</p> <p>I fyfyrwyr sy'n parhau a ddechreuodd yn 2021/22 neu'n gynt: £9,000 y flwyddyn am weddill eu cwrs.</p> <p>I fyfyrwyr sy'n parhau a ddechreuodd eu cwrs yn 2022/23 neu'n hwyrach: Yr uchafswm ffi a reoleiddir.</p> <p>I fyfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs yn 2022/23 neu 2023/24 sydd wedi Gohirio eu Hastudiaethau (IOS): £9000 am weddill eu cwrs.</p> <p>Os yw myfyriwr a ddechreuodd yn 2024/25 wedi Gohirio ei Astudiaethau (IOS) yn ei flwyddyn gyntaf, ni fyddem yn cynyddu ei ffioedd dysgu i ail-wneud y flwyddyn honno. (h.y. byddai'r ffioedd dysgu yn parhau i fod yn £9,000 i ail-wneud y flwyddyn</p>	<p>Prifysgol Caerdydd - Ar y Campws Myfyrwyr Israddedig Cartref</p>

<p>hono yn unig. Os oes angen i fyfyrwr a ddechreuodd yn 2024/25 ail-wneud ei ail flwyddyn neu flynyddoedd dilynol o astudio oherwydd IOS: uchafswm y ffi a reoleiddir).</p>	
<p>20% o uchafswm y ffi a reoleiddir</p> <p>I fyfyrwr a ddechreuodd eu cwrs yn 2022/23 neu 2023/24 ac sydd wedi Gohirio eu Hastudiaethau (IOS): £1,800</p>	<p>Myfyrwr israddedig cartref sy'n ymgymryd â blwyddyn ar leoliad proffesiynol neu flwyddyn ym myd diwydiant.</p>
<p>15% o uchafswm y ffi a reoleiddir</p> <p>I fyfyrwr a ddechreuodd eu cwrs yn 2022/23 neu 2023/24 ac sydd wedi Gohirio eu Hastudiaethau (IOS): £1,350</p>	<p>Myfyrwr israddedig cartref sy'n ymgymryd â blwyddyn o astudio dramor neu flwyddyn ar leoliad dramor.</p>
<p>Hyd at uchafswm y ffi a reoleiddir</p> <p>I fyfyrwr MArch a ddechreuodd eu cwrs yn 2022/23 neu 2023/24 ac sydd wedi Gohirio eu Hastudiaethau (IOS): £4,500</p>	<p>Blwyddyn ddysgu seiliedig ar waith gyda gofyniad uwch o ran presenoldeb.</p> <p>Mae gan rai o'n cyrsiau elfen o ddysgu yn y gweithle. Pan fo'r ffi ar gyfer y flwyddyn ddysgu seiliedig ar waith yn llai nag uchafswm y ffi a reoleiddir, gall y ffi gael ei hadolygu'n flynyddol.</p> <p>Gallwch chi ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am lefelau ffioedd ar dudalen ffioedd dysgu a thudalennau ffioedd cwrs y Brifysgol.</p>
<p>Fel y nodir yn y wybodaeth ynghylch lefelau ffioedd uchod, ar gyfer yr holl newydd-ddyfodiaid yn 2025/26 neu 2026/27, bydd Prifysgol Caerdydd yn codi uchafswm y lefel ffioedd dysgu a reoleiddir ar gyfer myfyrwr Israddedig Cartref (UG) amser llawn a Meistr Integredig sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun hwn. Llywodraeth Cymru sy'n pennu uchafswm y ffi, ac ar adeg ysgrifennu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn, yr uchafswm ffi a bennir gan Lywodraeth Cymru yw £9,250 o 2024/25.</p> <p>Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gynyddu ffioedd dysgu yn yr ail flwyddyn o ddilyn cwrs a'r blynyddoedd dilynol, yn unol â'r gyfraith neu bolisi Llywodraeth Cymru. Pan fo'n berthnasol, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newid mewn ffioedd dysgu erbyn mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd cyn y flwyddyn pan fyddant yn cynyddu.</p> <p>Bydd unrhyw gynnydd yn y ffi Israddedig Cartref Llawn Amser a Meistr Integredig ar gyfer 2025/26 neu 2026/27 (neu ar gyfer blynyddoedd i ddod o gwrs nad yw'n dod o dan y Cynllun hwn) ynghlwm wrth unrhyw gynnydd i'r uchafswm ffi fel y pennir gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant, fel y caniateir yn ôl y gyfraith neu gan bolisi Llywodraeth Cymru.</p>	

Fel y nodir yn y wybodaeth ynghylch lefelau ffioedd uchod, i fyfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs cyn 2025/26 neu 2026/27, bydd lefelau'r ffioedd yn dibynnu ar y flwyddyn y dechreuodd myfyriwr ei gwrs. Bydd hefyd yn dibynnu a ohiriodd myfyriwr ei astudiaethau a phryd, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo ail-wneud blwyddyn o'r cwrs.

Adran 1.2 - Lefelau ffioedd crynodol (Paragraffau canllaw 98-101)

Lefelau ffioedd cyfanredol

Bydd ffioedd cyfanredol am hyd y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen, ac a yw'r rhaglen yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol ai peidio: Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol neu Flwyddyn ym myd Diwydiant (ar hyn o bryd, 20% o uchafswm y ffi a reoleiddir); Blwyddyn o Astudio Dramor neu Flwyddyn ar Leoliad Dramor (15% o uchafswm y ffi a reoleiddir ar hyn o bryd); blwyddyn ddysgu seiliedig ar waith gyda gofyniad uwch o ran presenoldeb.

Fel y nodir yn yr wybodaeth ynghylch lefelau ffioedd uchod, bydd cyfanswm y ffioedd cyfanredol ar gyfer hyd y cwrs hefyd yn dibynnu ar y flwyddyn y dechreuodd myfyriwr ei gwrs, ac a ohiriodd myfyriwr ei astudiaethau, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo ail-wneud blwyddyn o'r cwrs.

Gallai fod effaith ar ffioedd cyfanredol am hyd y cwrs hefyd pe bai angen i fyfyriwr ail-wneud blwyddyn astudio am resymau heblaw am ohirio ei astudiaethau, er enghraifft.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gynyddu ffioedd dysgu yn yr ail flwyddyn o ddilyn cwrs a'r blynyddoedd dilynol, yn unol â'r gyfraith neu bolisi Llywodraeth Cymru. Pan fo'n berthnasol, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am unrhyw newid mewn ffioedd dysgu erbyn mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd cyn y flwyddyn pan fyddan nhw'n cynyddu.

Mae'r potensial hwn ar gyfer cynyddu ffioedd yn cael ei gyfleu i ymgeiswyr yn y llythyr cynnig, ac yn y telerau a'r amodau sy'n cael eu dwyn i sylw myfyrwyr yn y llythyr cynnig. Caiff ei wneud yn glir hefyd ar y tudalennau ffioedd dysgu (<https://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/tuition-fees>) a chysiau ar ein gwefan (gweler yr enghraifft isod).

Lle mae amrywiadau ffioedd yn berthnasol i gyrsiau oherwydd cyfnod ar leoliad neu astudio dramor tra bydd myfyrwyr wedi'u cofrestru ym Mhrifysgol Caerdydd, mae'r rhain yn cael eu cyfleu'n glir ar adeg y cais, ac ar dudalen ffioedd dysgu ein gwefan.

Sut mae Prifysgol Caerdydd yn cyfleu gwybodaeth ynghylch ffioedd i fyfyrwyr

Mae gohebiaeth Prifysgol Caerdydd yn targedu darpar ymgeiswyr am le yn y Brifysgol, y myfyrwyr presennol, rhieni, staff mewn ysgolion uwchradd a cholegau gan gynnwys athrawon ac ymgynghorwyr gyrfaoedd, a staff y Brifysgol er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybodaeth gywir, amserol a chyson. Rydym yn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn bodloni'r gofynion a nodir yng Nghod Ansawdd

y DU ar gyfer Addysg Uwch gan gyfeirio'n benodol at gynllunio a datblygu cyrsiau. Rydym yn ymdrechu i gydymffurfio â Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ym mhob ffordd, ac rydym wedi ymrwmo i ymgorffori'r holl gyngor ac arweiniad cyfraith defnyddwyr addysg uwch yn ein prosesau mewnol.

Gwefan

- Mae tudalennau penodol ar y we yn cynnwys gwybodaeth am ffioedd dysgu, cyfleoedd ariannu gan gynnwys ysgoloriaethau a bwrsariaethau, a chefnogaeth i fyfyrwyr. Mae'r tudalennau'n cynnwys dolenni i wefannau perthynol eraill gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr/yr Alban/Gogledd Iwerddon, yn ogystal â chyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth gyswllt ddefnyddiol i brifysgolion.
<https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees>.
- Mae tudalennau gwe'r cwrs yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pam y dylid astudio'r cwrs, gofynion mynediad, ffioedd dysgu, strwythur y cwrs, dysgu ac asesu, gyrfaoedd a lle bo'n berthnasol, gwaith maes. Darperir gwybodaeth sy'n benodol i'r pwnc i helpu darpar fyfyrwyr i wneud y penderfyniadau gorau posibl. Enghreifftiau: [Daearyddiaeth Amgylcheddol \(BSc\) - Astudio - Prifysgol Caerdydd](#) a [Hanes \(BA\) - Astudio - Prifysgol Caerdydd](#).
- Yn ogystal, mae'n bosibl i ddarpar fyfyrwyr sgwrsio ar-lein gyda myfyrwyr presennol i ddarganfod mwy am y cwrs y mae ganddynt ddiddordeb ynddo, ac mae hefyd bot sgwrsio i ddarparu ffynhonnell arall o wybodaeth.

Deunyddiau marchnata/diwrnodau agored/gweithgaredd allgymorth

- Mae'r Brifysgol yn cyfathrebu gwybodaeth am ffioedd a chymorth sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr mewn diwrnodau agored corfforol, diwrnodau ymweld, gweminarau a digwyddiadau rhithwir eraill, ffeiriau AU a gweithgarwch cyswllt ysgolion a cholegau. Mae hefyd ar gael mewn prospectysau, pamffledi, canllaw cyllid myfyrwyr a chynghor gan staff y Brifysgol. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys mewn cyflwyniadau ar gyfer athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd, yn ogystal ag yn y sgwrsiau am gyllid myfyrwyr ar gyfer ymgeiswyr a'u rhieni.
- Rydym yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Instagram, blogiau a YouTube i gyfathrebu â darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol.
- Mae gwybodaeth berthnasol hefyd yn cael ei chyfleu i'r rhai sy'n cymryd rhan yn ein gwahanol raglenni Ehangu Cyfranogiad.

E-bost

- Mae ffioedd yn cael eu hamlinellu yn y llythyr cynnig ffurfiol a anfonir drwy e-bost at ymgeiswyr. Mae ein llythyr cynnig yn manylu ar y ffioedd dysgu sy'n daladwy ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen ac yn egluro bod y Brifysgol yn cadw'r hawl i gynyddu ffioedd dysgu yn ail flwyddyn cwrs a'r blynyddoedd dilynol fel y caniateir gan y gyfraith neu gan bolisi Llywodraeth Cymru. Byddai unrhyw newid yn y ffi yn cael ei gyfleu i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol erbyn diwedd mis Mehefin.
- Rydym yn cyfathrebu â'r holl ddeiliaid cynigion ar ffurf cylchlythyr sy'n manylu ar ddarpariaeth bwrsariaethau.

Adran 2 - Partneriaeth Myfyrwyr (Paragraffau canllaw 102-105)

Strategaeth

Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi cynnwys rhanddeiliaid yn 'Y Sgwrs Fawr', er mwyn creu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer dyfodol Prifysgol Caerdydd. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu strategaeth newydd, 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd: Strategaeth Prifysgol Caerdydd hyd at 2035'.

Un o'n prif randdeiliaid yw ein myfyrwyr. Cafodd panel o dros 50 o fyfyrwyr sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli poblogaeth myfyrwyr y Brifysgol ei recriwtio i gefnogi a datblygu gweledigaeth Prifysgol Caerdydd ar gyfer y dyfodol. Trwy weithdai rheolaidd rhwng mis Rhagfyr 2023 ac Ebrill 2024, roedd myfyrwyr wedi cael eu hyfforddi mewn sgiliau ar gyfer y dyfodol, wedi dehongli a darparu adborth ar ganlyniadau'r arolwg, a datblygu a mireinio'r mathau o Brifysgol bosibl yn y dyfodol. Yn y gweithdai o fis Ebrill 2024 i fis Gorffennaf 2024, bu'r myfyrwyr yn ystyried gweledigaeth, cenhadaeth a chyfeiriad y Brifysgol am y 10 mlynedd nesaf. Mae hyn wedi helpu i lunio'r strategaeth derfynol a gafodd gymeradwyaeth gan Cyngor y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2024.

Mae gan ein [strategaeth Ehangu Cyfranogiad 2020-25](#) bedwar prif nod:

- Ymgysylltu â phobl o bob cenhedlaeth a'u hysbrydoli i ystyried addysg uwch yn opsiwn realistig a chyraeddadwy.
- Denu a recriwtio myfyrwyr sydd â photensial academaidd, waeth beth fo'u cefndir neu'u profiad personol.
- Galluogi pobl i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r Brifysgol a meithrin profiad myfyriwr rhagorol a chefnogol.
- Meithrin ac annog dyfodol hyderus a llwyddiannus i bawb

Datblygwyd y Strategaeth mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, dan arweiniad ein haelod myfyriwr o'r grŵp Strategaeth, sef Is-lywydd Parc y Mynydd Bychan, a oedd yn ymgysylltu â myfyrwyr a fyddai'n elwa o amcanion y Strategaeth.

Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn parhau i fod yn rhai o aelodau Bwrdd Cyflawni Strategaeth Ehangu Cyfranogiad y Brifysgol ac mae myfyrwyr yn rhan o lawer o'r ymyriadau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth.

Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr

Mae [Siarter y Myfyrwyr](#) yn amlinellu'r hyn y gall myfyrwyr ei ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a'r cyfrifoldebau sydd ar ein myfyrwyr i wneud y mwyaf o'u profiad yn y Brifysgol. Mae'n cynnwys disgwyliadau o agwedd agored, gonestrwydd, amrywiaeth a dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'n cael ei hadolygu bob blwyddyn gan Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol i wneud yn siŵr ei bod yn berthnasol o hyd. Mae'r Brifysgol yn cefnogi Undeb y Myfyrwyr i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ymgysylltu â phob myfyriwr, cynnig cyfleoedd datblygu/gwirfoddoli, creu cyfleusterau o'r radd flaenaf a chynnig gweithgareddau chwaraeon, cymdeithasau a gwasanaethau

cyngor annibynnol. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cydnabyddedig wedi'i gynnwys yn nhrawsgrifiadau gwell y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr.

Mae [swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr](#) yn cymryd rhan fel aelodau llawn o brif bwyllgorau a grwpiau strategol y Brifysgol gan gynnwys:

- Senedd – ein prif awdurdod academiaidd, sy'n gyfrifol am flaenoriaethau academiaidd.
- Y Cyngor - corff llywodraethu'r Brifysgol. Mae'n gyfrifol am reoli a chynnal materion y Brifysgol yn effeithlon, gan gynnwys cyllid ac ystadau.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu yn cynghori'r Cyngor ynghylch lefel y cydymffurfio gan y Brifysgol â gofynion gorfodol deddfwriaeth a rheoliadau eraill.
- Y Pwyllgor Polisiâu ac Adnoddau - yn gyfrifol am graffu ar gyllid cyfalaf ar gyfer mentrau a gwerthuso effaith.
- Y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr - yn gyfrifol am roi arweiniad strategol a chynghori'r Brifysgol ar bob mater sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad myfyrwyr ar draws ystod lawn ei darpariaeth ar gyfer myfyrwyr.
- Y Pwyllgor Safonau Academiaidd ac Ansawdd – yn gyfrifol am oruchwylio cynnydd a chyrrhaeddiad myfyrwyr.
- Y Grŵp Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – yn gyfrifol am drosolwg o strategaeth Gymraeg y Brifysgol a datblygu darpariaethau Cymraeg ymhellach.
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant - bydd yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ar ddatblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid cyfreithiol ac arferion gorau ym mhob mater sy'n ymwneud â chyfle cyfartal ac amrywiaeth.

Mae swyddogion myfyrwyr hefyd yn gwasanaethu ar y byrddau llywio ar gyfer ein holl brosiectau sy'n wynebu myfyrwyr. Mae ganddynt fynediad uniongyrchol a rheolaidd at uwch-swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys yr Is-ganghellor ac aelodau eraill o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol. Yn rhan o'n prosesau sicrhau ansawdd mae myfyrwyr yn aelodau ffurfiol o'r panel sefydlog sy'n ystyried yr holl newidiadau a datblygiadau o bwys i'r rhaglen, ein Pwyllgorau Adolygu a Gwella Blynyddol a'r holl Baneli Adolygiad Cyfnodol. Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr hefyd yn gwasanaethu ar ein paneli apeliadau Ymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer.

Mae'r Brifysgol yn bartner cefnogol yn ['Wythnos Siarad'](#) flynyddol Undeb y Myfyrwyr, sy'n un o uchafbwyntiau'r calendr llais y myfyrwyr. Gofynnir i fyfyrwyr 'Pe byddech chi'n rhedeg y Brifysgol, beth fyddech chi'n ei gadw a beth fyddech chi'n ei newid?'; cwestiwn sy'n cynhyrchu ystod eang o adborth adeiladol yn gyson. Gan ddefnyddio'r adborth gan fyfyrwyr a gesglir yn ystod Wythnos Siarad, mae Undeb y Myfyrwyr yn cynhyrchu [Barn Myfyrwyr](#) ar gyfer Cyngor y Brifysgol. Cytunir ar ymateb sefydliadol gan y Brifysgol i Farn y Myfyrwyr a chynllun gweithredu gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, a bydd Cyngor y Brifysgol yn eu cael er mwyn craffu arnynt. Mae Grŵp Strategol Cyflwyniad Barn y Myfyrwyr yn monitro ac yn gwerthuso gweithgareddau a chamau gweithredu, ac mae'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn o leiaf ac yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Rhag Is-Ganghellor dros Brofiad Myfyrwyr a Safonau Academiaidd.

Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Llais a Phartneriaeth Myfyrwyr sy'n cael ei gyd-gadeirio gan un o Swyddog etholedig Undeb y Myfyrwyr ac Uwch Academydd. Mae'r Pwyllgor yn darparu trosolwg strategol o bob mater sy'n ymwneud â llais myfyrwyr a gwella partneriaeth y Brifysgol ag Undeb y Myfyrwyr ac i roi mewnwleidiad i brofiad myfyrwyr. Trwy nodi ac argymhell dulliau newydd ac arloesol ar gyfer casglu adborth ar brofiad myfyrwyr, defnyddir data meintiol ac ansoddol i sicrhau bod dulliau priodol yn cael eu defnyddio i wneud gwelliannau a chyfathrebu â myfyrwyr ar gamau a gymerir mewn ymateb i adborth.

Llais y Myfyrwyr

Rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau a barn ein myfyrwyr, ac mae llawer o weithgareddau llais myfyrwyr, gan weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn darparu cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn i fyfyrwyr rannu eu barn am yr hyn y mae'r Brifysgol yn ei wneud yn dda a'r hyn y gall ei wneud yn well. Hefyd, mae gennym fecanweithiau i roi gwybod i fyfyrwyr a staff sut mae adborth myfyrwyr wedi dwyn newid ar draws y Brifysgol.

Mae [system cynrychiolaeth academiaidd myfyrwyr](#) yn cael ei rheoli mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, sy'n caniatáu i fyfyrwyr sy'n gynrychiolwyr chwarae rôl bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel cwrs, gan dynnu ar adborth gan gorff ehangach y myfyrwyr. Mae cylch hyfforddi blynyddol ar gyfer ein cynrychiolwyr myfyrwyr wedi'i arwain gan Undeb y Myfyrwyr a'i gynnal ar y cyd â Chydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr Ysgolion, a chynhadledd hyfforddi flynyddol. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn ymgysylltu â charfannau eu rhaglenni ac yn siarad ar eu rhan mewn ystod o fforymau sefydledig mewn Ysgolion a Cholegau. Mae'r rhain yn cynnwys paneli myfyrwyr-staff a chyfarfodydd rheolaidd o gadeiryddion panel myfyrwyr. Mae'r ymglymiad hwn yn sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei glywed a'i ystyried wrth wneud penderfyniadau.

Anogir myfyrwyr i roi adborth drwy nifer o fecanweithiau, naill ai'n uniongyrchol drwy offer adborth neu drwy eu cymheiriaid, sef cynrychiolwyr myfyrwyr neu'r tîm Hyrwyddwyr Myfyrwyr (gweler isod). Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae **paneli myfyrwyr-staff** yn galluogi bob cynrychiolydd academiaidd myfyrwyr i gwrdd â'u staff yn eu hysgol a rhannu eu profiad myfyrwyr yn rheolaidd. Cynrychiolydd myfyrwyr enwebedig sy'n cadeirio'r cyfarfodydd hyn, a chynrychiolydd myfyrwyr sy'n gwneud y cofnodion. Caiff cofnodion y paneli eu rhannu gydag Undeb y Myfyrwyr sy'n creu 'adroddiad effaith' tymhorol, yn amlinellu'r prif anawsterau sy'n wynebu myfyrwyr yn ogystal â meysydd o gryfderau penodol. At hynny, gwahoddir cadeiryddion paneli myfyrwyr-staff i'r Byrddau Astudio er mwyn trafod adborth gan fyfyrwyr.
- Mae **Fforymau Colegau** yn gyfle i gadeiryddion paneli myfyrwyr-staff Ysgolion sy'n fyfyrwyr ddod ynghyd a chodi materion sydd wedi dod i'r amlwg ar baneli myfyrwyr-staff gyda swyddogion Undeb y Myfyrwyr, Deoniaid y Colegau ac aelodau eraill o staff drwy wahoddiad.
- Mae **Hyrwyddwyr Myfyrwyr** yn fyfyrwyr presennol y mae'r Brifysgol yn eu cyflogi fel asiantau newid i'n helpu ni i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o farn myfyrwyr ar faterion penodol, a sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â ni fel partneriaid. Cânt eu cefnogi

gan yr Academi Dysgu ac Addysgu. Mae'r myfyrwyr hyn wedi bod yn rhan o amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys dylunio methodoleg profiad defnyddiwr (UX) ar gyfer yr Adolygiad Amgylchedd Dysgu Digidol yn ogystal â darparu mewnbwn gwerthfawr i ddatblygiad yr ap myfyrwyr, gan gynyddu ymgysylltiad â'r Myfyriwr Cenedlaethol Arolygu a hwyluso prosiectau a gweithdai partneriaeth ar gyfer amryw o fentrau sy'n ymwneud â phrofiad myfyrwyr.

- **Mae gwerthusiad modiwl**, a elwir bellach yn Gwella Modiwlau, wedi'i ailddatblygu a'i adeiladu ar system Glas newydd, gan Explorance. Mae'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr roi adborth ar eu holl fodiwlau trwy gyfrwng teclyn ar-lein hawdd ei ddefnyddio, sy'n gyfeillgar i ffonau symudol. Mae'r data hwn yn cynnig gwell dealltwriaeth o dueddiadau ym modlonrwydd myfyrwyr ar draws y Brifysgol ac yn helpu i amlygu blaenoriaethau o ran camau ymatebol a phriodol ar lefel Ysgol a Phrifysgol. Yn eu tro, mae cynullwyr modiwlau'n hysbysu myfyrwyr am y data gwerthuso modiwlau a'r camau a gymerir o ganlyniad i adborth myfyrwyr.
- Derbynnir ymatebion ac adborth yr **Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS)** trwy'r NSS blynyddol o fyfyrwyr blwyddyn olaf israddedig. Caiff canlyniadau'r Arolwg eu harchwilio ar lefelau Ysgol, Coleg a Phrifysgol, a bydd blaenoriaethau o ran camau gweithredu a gwelliant yn cael eu nodi a'u monitro drwy Grŵp Strategol Profiad y Myfyrwyr.
- **Y Grŵp Rheoli Arolygon** - Mae'r grŵp hwn yn cydlynu ac yn rheoli arolygon ar draws y Brifysgol yn effeithiol ac yn gweinyddu'r Fframwaith Rheoli Arolygon sy'n sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed a'i weithredu, gan gau dolenni adborth ar bob lefel. Mae'r fframwaith yn darparu cylch symlach o ddylunio, dadansoddi, adrodd a chyhoeddi ar gyfer pob arolwg myfyrwyr ynghyd ag eglurder ar lywodraethu, cyfrifoldeb, perchnogaeth data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.
- **Fframwaith Llais y Myfyrwyr a'r Model Gwella** - Mae'r Fframwaith yn nodi disgwyliadau a chyfrifoldebau Llais y Myfyrwyr ar gyfer holl staff a myfyrwyr y brifysgol, gan sicrhau ein bod yn cyd-fynd ag arferion gorau allanol ac asiantaethau'r sector. Mae ffynonellau lluosog o ddata Llais y Myfyrwyr yn rhan o un ecosystem yng Nghaerdydd, a bydd y Model Gwella a fydd yn cael ei lansio yn 2024-25 yn gweithredu fel pecyn cymorth rhyngweithiol, gan alluogi cydweithwyr i nodi a myfyrio ar ble mae eu hymarfer o ran llais myfyrwyr presennol. Bydd y model yn cefnogi cynllunio gweithredu, adrodd a datblygiadau yn y dyfodol drwy lywio'r adnoddau annatod.

Dylanwadir ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd trwy ystyried adborth cyfranogwyr sy'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n rheolaidd fel rhan o'n rhaglenni profiad myfyrwyr gan gynnwys:

- Camu 'Mlaen
- Mentora Myfyrwyr
- Hyrwyddwyr Lles
- Mentrau cyflogadwyedd, a
- Chyfleoedd byd-eang.

Mae ein myfyrwyr hefyd yn helpu i ddarparu sawl rhaglen a gweithgaredd a nodir yn y Cynllun. Er enghraifft:

- **Interniaethau ar y campws ar gyfer datblygu Dysgu, Addysgu ac Ymchwil yng Nghaerdydd** lle mae myfyrwyr israddedig yn cael y cyfle i weithio ar y cyd â staff ar brosiectau i wella dysgu, addysgu ac ymchwil.
- Mae'r **Sioe Deithiol Addysg Uwch**, a gynhelir ar y cyd â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn codi ymwybyddiaeth o addysg uwch ac yn rhoi cymorth wrth gam cynnar am yrfaeoddedd a dewisiadau pwnc. Mae ein myfyrwyr yn cyfrannu at y gwaith o ddylunio cynnwys y sesiwn ac yn cyflwyno cyflwyniadau rhyngweithiol i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 9-11. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o addysg uwch a'i buddiannau, ac annog disgyblion. Mae'n rhoi cyngor gyrfaoedd sy'n berthnasol i addysg uwch yn gynnar fel bod disgyblion yn gwneud dewisiadau gwybodus am TGAU ac addysg bellach.

Mae'r adborth gan fyfyrwyr a staff ynghylch y cynlluniau hyn yn gadarnhaol dros ben. Mae cydweithwyr academiaidd yn nodi effaith bwysig cael myfyrwyr ynghlwm wrth brosiectau, sy'n cynnig elfen gyfredol iddynt, a myfyrwyr yn nodi bod y cynllun yn rhoi'r cyfle iddynt fod yn bartner ar y cyd gydag academyddion ar brosiectau, yn ogystal â chynnig profiad gwerthfawr iawn o gyflogadwyedd.

Adran 3 - Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (Paragraffau canllaw 106-116)

Mae ein [Strategaeth Ehangu Cyfranogiad 2020-2025](#) yn nodi'r myfyrwyr rydym yn ceisio eu blaenoriaethu drwy ein buddsoddiad cynllun ffioedd a mynediad.

Dynodwyd y canlynol gan CCAUC fel y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch:

- Myfyrwyr o bob oed o ddau gwintel gwaelod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019
- Myfyrwyr o bob oed o gwintel isaf MALIC 2019
- Pobl o bob oed o Brydain sy'n cymryd rhan isel mewn ardaloedd addysg uwch
- Myfyrwyr o bob oed a fyddai'n elwa o astudio mewn Addysg Uwch yn rhan-amser
- Myfyrwyr o bob oed sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodwyd gan y rhaglen Estyn y Ehangach:

- o fewn dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru:
 - pobl ifanc ôl-16
 - oedolion heb gymwysterau lefel 4, i symud ymlaen i ddarpariaeth lefel 4.
- a Chymru gyfan:
 - plant sy'n derbyn gofal
 - ymadawyr gofal
 - gofalwyr ym mhob grŵp oedran

Wedi'i nodi gan Brifysgol Caerdydd fel myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, myfyrwyr sy'n / sydd ag:

- anabledd (gan gynnwys awtistiaeth)
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- cyn-filwyr y lluoedd arfog
- wedi ymddieithrio o'r teulu
- rhieni heb eu haddysgu hyd at lefel Addysg Uwch
- enillion blynyddol gros yr aelwyd, yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau (<£35k ar hyn o bryd)
- oedran – aeddfed
- cartref BAME

Adran 4 - Amcanion fel y maent yn ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU
(Paragraffau canllaw 117-135)

Adran 4.1 - Cyfle cyfartal

Amcan 1	Codi dyheadau a chynyddu mynediad at AU ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
Amcan 2	Sicrhau bod cyfraddau parhad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn unol â gweddill poblogaeth y myfyrwyr.
Amcan 3	Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy wella cymuned, diwylliant a darpariaeth Cymraeg y Brifysgol.
Amcan 4	Gwella cyflogadwyedd myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

Adran 4.2 - Hyrwyddo addysg uwch

Amcan 1	Parhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu byd-eang, cymunedol a dinesig sy'n effeithiol ac o ansawdd uchel.
Amcan 2	Darparu amgylchedd dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.

Amcan 3	Canolbwyntio ar wella sy'n gwella profiad y myfyrwyr.
Amcan 4	Parhau i gynnig cwricwla a chyfleoedd ehangach i ehangu cyflogadwyedd myfyrwyr

Rhan 3 – Tystiolaeth i CCAUC i gefnogi'r cais cynllun ffioedd a mynediad (nid yw'n ofynnol i'w chyhoeddi)

Tystiolaeth i gefnogi'r cais cynllun ffioedd a mynediad

Tystiolaeth a data i gefnogi amcanion, targedau a gweithgareddau'r cynllun (Paragraffau canllaw 137-138)

Fel y nodir yn y wybodaeth ynghylch lefelau ffioedd uchod, ar gyfer yr holl fyfyrwyr newydd yn 2025/26 neu 2026/27, bydd Prifysgol Caerdydd yn codi lefel uchaf y ffioedd dysgu a reoleiddir ar gyfer myfyrwyr Israddedig Cartref (UG) amser llawn a Meistr Integredig sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun hwn. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r uchafswm ffi, ac ar adeg ysgrifennu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn, yr uchafswm ffi a bennir gan Lywodraeth Cymru yw £9,250 o 2024/25.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gynyddu ffioedd dysgu yn yr ail flwyddyn o ddilyn cwrs a'r blynyddoedd dilynol, yn unol â'r gyfraith neu bolisi Llywodraeth Cymru. Pan fo'n berthnasol, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newid mewn ffioedd dysgu erbyn mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd cyn y flwyddyn pan fyddant yn cynyddu.

Bydd unrhyw gynnydd yn y ffi Israddedig Cartref Llawn Amser a Meistr Integredig ar gyfer 2025/26 neu 2026/27 (neu ar gyfer blynyddoedd i ddod o gwrs nad yw'n dod o dan y Cynllun hwn) ynghlwm wrth unrhyw gynnydd i'r uchafswm ffi fel y pennir gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant, fel y caniateir gan y gyfraith neu gan bolisi Llywodraeth Cymru.

Fel y nodir yn y wybodaeth ynghylch lefelau ffioedd uchod, i fyfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs cyn 2025/26 neu 2026/27, bydd lefelau'r ffioedd yn dibynnu ar y flwyddyn y dechreuodd myfyriwr ei gwrs. Bydd hefyd yn dibynnu a ohiriodd myfyriwr ei astudiaethau a phryd, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo ail-wneud blwyddyn o'r cwrs.

Tystiolaeth a data i gefnogi ffocws y cynllun ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (Paragraffau canllaw 139-144)


Amh.

Awdurdodi'r cais cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC (sy'n ofynnol i'w gyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun ffioedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu:

- i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac mai elusen ydyw.
- ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu'r datganiadau sy'n cael eu gwneud yn y cais hwn.
- iii. yn cadarnhau y bu ymgynghori priodol gyda'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad a'r rhai sy'n astudio gyda darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran;
- iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;
- v. yn cadarnhau: **[dilëwch un neu fwy o osodiadau, fel sy'n briodol]**
 - a. ei bod hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/data arall sydd ganddo am sefydliad sy'n rheoledig ar hyn o bryd, p'un a ddarparwyd yr wybodaeth/y data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 neu beidio;
 - ~~b. nad yw hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/data arall sydd ganddo am sefydliad sy'n rheoledig ar hyn o bryd at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 neu beidio; ac~~
 - ~~c. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfoes, mwy diweddar i lywio asesiad CCAUC;~~
- vi. yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad i ddeall yn well gymhwysedd sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd ynghylch y cynlluniau ffioedd a mynediad a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir am, neu ar ran y sefydliad.
- vii. yn deall bod rhaid iddo ddarparu, i CCAUC neu asiant CCAUC, wybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran.
- viii. ei fod yn deall y caiff CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran y sefydliad, a bod rhaid i'w gorff llywodraethu roi ystyriaeth i unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu'r corff a benodir gan CCAUC at y diben hwn;
- ix. yn cadarnhau bod pob addysg a ddarperir ganddo, neu ar ei ran, beth bynnag fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn.

- x. yn cadarnhau bod y sefydliad yn wynebu risg isel o fethiant ar sail ariannol yn ystod y tymor canolig i'r tymor hir.
- xi. yn cadarnhau yr archwiler y cyfrifon bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yr archwilydd cofrestredig hwnnw yw'r un cwmni/unigolyn a baratôdd y cyfrifon.
- xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch;
- xiii. yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y cynllun ffioedd a mynediad, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC.
- xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi yr un gyfran o incwm ffioedd israddedig llawn-amser i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch ac nid lleihau buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a fwriedir i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yn unig;
- xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol i'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach sy'n cyd-fynd â'i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ymestyn yn Ehangach y cytunwyd arnynt;
- xvi. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;
- xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau y gellir trefnu i gopi o'r cynllun ffioedd a mynediad fod ar gael i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat.
- xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn dynnu sylw ei fyfyrwyr yn glir at brosesau cwynion CCAUC.
- xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n astudio ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig.
- xx. yn ystyried sut y gall buddsoddiad gefnogi myfyrwyr yr effeithir arnynt fwyaf gan y pandemig Covid-19 lle nad ydynt eisoes wedi'u nodi fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; ac
- xxi. yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfle cyfartal, a chefnogi a hyrwyddo lles ei fyfyrwyr a'i staff.

Cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC¹	
Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu:	29/08/2024 (Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, o dan awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor)
Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu:	
Dyddiad:	29/08/2024
Cyflwyno'r cynllun ffioedd a mynediad terfynol ar ôl i CCAUC gadarnhau nad oes ganddo unrhyw bryderon pellach (lle bo hynny'n berthnasol)	
Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu:	
Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu:	
Dyddiad:	

¹ Dylai cynlluniau ffioedd a mynediad a gyhoeddir ar wefannau'r sefydliad ond cynnwys fersiynau sydd wedi'u cymeradwyo gan CCAUC.